We'll look after you

[Gofalwn amdanoch chi]

Canllaw Defnyddwyr Gwasanaeth Gofal Cartref Cymru

Allied Healthcare Group, Enw
Cyfeiriad 1
Cyfeiriad 2
Cyfeiriad 3
Cyfeiriad 4
Cyfeiriad 5

☎ XXXXXX XXXXXXXX
XXXXX XXXXXXX
✉ branch@alliedhealthcare.com

Mehefin 2009

Cynnwys

Diben y Ddogfen hon 4

Ein Nodau ac Amcanion 5

Gair am Allied Healthcare Group 6

Yr Unigolyn Cyfrifol 6

Y Rheolwr Cofrestredig 6

Y Gwasanaeth a Ddarparwn 7

Hyfforddiant 9

Cymorth y Tu Allan i Oriau 9

Cyfrinachedd 9

Canslo neu Ohirio'r Gwasanaeth 10

Taflenni Amser 10

Ysmygu 12

Anifeiliaid Anwes 12

Deddf Galluedd Meddyliol 2005 12

Eich Iechyd a Diogelwch 14

Diogelwch y cleient 14

Diogelu Eich Arian a'ch Eiddo 17

Rhoi Meddyginiaeth 17

Ein Polisi Iechyd a Diogelwch 18

Gweithdrefn Damweiniau / Digwyddiadau 19

Gweithdrefn Gwyno 21

Egwyddorion 21

Sut i Gwyno: 21

Sut yr ymdrinnir â'ch cwyn: 22

Cwyno i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru 22

Ystwiriant.....23

Diben y Ddogfen Hon

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi gwybodaeth sylfaenol am Allied Healthcare Group i'n defnyddwyr gwasanaeth neu bobl sy'n ystyried defnyddio ein gwasanaeth. Mae'n cynnwys gwybodaeth allweddol sy'n ofynnol gan Reoliadau Asiantaethau Gofal Cartref 2002.

Mae eich canllaw'n cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Ein Gwerthoedd, Nodau ac Amcanion, Rhag-gynllunio
- Strwythur Masnachu Allied Healthcare Group
- Rhwydwaith y Canghennau a'r Tîm Sy'n Eu Cefnogi
- Natur y Gwasanaeth a Ddarparwn
- Cyfrinachedd
- Canslo neu Ohirio Gwasanaeth
- Cyflenwi ar gyfer Salwch a Gwyliau
- Taflenni Amser
- Gweithdrefn Gwyno
- Eich Diogelwch
- Diogelu eich Arian a'ch Eiddo
- Rhoi Meddyginiaeth
- Iechyd a Diogelwch
- Gweithdrefn Damweiniau/Digwyddiadau
- Cymorth y Tu Allan i Oriau
- Sut i Fynegi eich Barnau

Ein Nodau ac Amcanion

Yn Allied Healthcare, ein hadnodd pwysicaf yw ein pobl

- Daw ein llwyddiant o'n pobl
- Mae ein pobl yn weithwyr gofal iechyd proffesiynol ymroddedig a fydd yn cyflwyno gwasanaeth uwchraddol i fodloni eich anghenion unigol
- Ein cryfder yw safon y gofal mae ein pobl yn ei ddarparu
- Ein gwasanaeth yw ein hymrwymiad i ddarparu atebion effeithiol i fodloni eich anghenion penodol a bwriadedig

Mae nodau ac amcanion a rhag-gynllunio Allied Healthcare yn sicrhau y gall ein cleientiaid fod yn sicr bob amser o:

- Ymagwedd bartneriaeth at ddarparu staff; gan gynnig atebion arloesol wedi'u teilwra i'ch holl anghenion cytundebol.
- Eich cefnogi a'ch cynnwys wrth ffurfio penderfyniadau sy'n dylanwadu ar eich darpariaeth gofal.
- Rhaglenni recriwtio cadarn, sy'n eich sicrhau chi fod pob gofalwr yn bodloni'r safonau ansawdd cenedlaethol yn unol â'r Safonau Gofal Lleiaf Cenedlaethol
- Parch, urddas a chyfrinachedd; gan sicrhau preifatrwydd drwy'r amser
- Effeithlonrwydd gofal a gyflawnir yn unol â rhwystrau eich cyllideb
- Sicrhad pellach fod yr holl aelodau o staff yn cael eu sgrinio a'u hyfforddi i safonau uchaf Allied Healthcare ac, ar ôl eu recriwtio, fod eu perfformiad yn cael ei fesur a'u bod yn cael eu cefnogi yn eu datblygiad proffesiynol parhaus
- Cydlynu gofalus a chyfathrebu agos uwchlaw safonau diwydiant; gan gyflawni gwasanaeth sy'n darparu adroddiadau gofal i fonitro cynnydd ym mhob cam o'r broses ofalu
- Systemau gwybodaeth sy'n darparu rhwydwaith cyfathrebu cenedlaethol; gan gynnig cyfleusterau atgyfeirio cyfleus, effeithlon a sicrhau cywirdeb, cysondeb ac ymateb cyflym i bob gofyniad gweinyddu
- Ein gallu i weithredu'n llwyddiannus ein strategaethau caffael ac integreiddio

Yn ganolog i'r rhain yw ein cred bod hawliau defnyddwyr gwasanaeth yn hollbwysig.

Gair am Allied Healthcare Group

Yr Oedolyn Cyfrifol

Yr Unigolyn Cyfrifol ar gyfer Allied Healthcare wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Marie Moody
Pennaeth Ansawdd
Allied Healthcare
Stone Business Park
Brooms Road
Stone
ST15 0TL
☎ 01785 810600
📠 01785 818200
✉ mariemoody@alliedhealthcare.com

O'n prif swyddfa yn Stone, darperir hyfforddiant llawn a chymorth gweithredol i'n holl weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn y maes. Mae'r rhain yn cynnwys Cyfarwyddwyr/Rheolwyr Rhanbarthol, Uwch-arolygwyr/ Rheolwyr Cangen, gweithwyr cangen ac asiantaeth.

Y Rheolwr Cofrestredig

Mae gan holl ganghennau Allied Healthcare eu **Rheolwyr Cofrestredig** eu hunain wedi'u recriwtio'n ofalus. Mae ganddynt y sgiliau, y gallu a'r arbenigedd perthnasol sydd eu hangen er mwyn inni ddarparu gwasanaeth cefnogi uwchraddol i'r rheini yn y gymuned gofal iechyd a gofal cymdeithasol leol.

Rheolwr Cofrestredig
[Nodwch Enw]
[Nodwch gyfeiriad]
[Nodwch rif ffôn]
[Nodwch rif ffacs]
[Nodwch fanylion e-bost]
[Nodwch gymwysterau]
[Nodwch brofiad]
[Nodwch gymwysterau/profiad perthnasol ar gyfer pob aelod o staff yma]

Y Gwasanaeth a Ddarparwn

Mae pob cangen yn wahanol yn yr amrywiaeth o wasanaethau a ddarpara, sydd wedi'i theilwra'n arbennig i anghenion y gymuned leol.

Mae'r gangen yn ymdrin â'r ardal ddaearyddol ganlynol a restrir yn y blwch:

Mae Allied Healthcare Group wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Adlewyrchir ein llwyddiant yn ehangder a dyfnder y gwasanaeth a ddarparwn.

Rydym yn deall anghenion unigolion ac yn cyflenwi gwasanaeth i ystod eang o bobl y mae angen gofal a chefnogaeth arnynt tra byddant yn byw yn eu cartref eu hunain. Mae'r gofal a'r gefnogaeth hon yn ymestyn i'r grwpiau canlynol o unigolion a restrir yn y blwch isod:

Pan fo gofyn anghenion arbenigol, byddwn yn defnyddio ein cronfa ddata i nodi'r gweithwyr hynny sydd â'r cymhwyster gofynnol i ddarparu'r gwasanaeth.

Gall y pecynnau gofal a gyflenwn i'r unigolyn gynnwys:

Dilëwch unrhyw rai o'r canlynol nad ydynt yn berthnasol i'ch cangen chi a dilëwch y testun.

- ✓ Gwasanaethau Nyrsio
- ✓ Gwasanaeth Gofal Personol
- ✓ Gwasanaeth Dibyniaeth Fawr
- ✓ Gwyliau Seibiant/Rhyddhad
- ✓ Gwasanaeth Brys
- ✓ Gwasanaeth Eistedd yn ystod y Dydd/y Nos
- ✓ Casglu Pensiynau
- ✓ Cymorth yn codi o'r gwely
- ✓ Cymorth yn mynd i'r gwely
- ✓ Gwasanaeth ymolchi
- ✓ Gwasanaeth golchi dillad
- ✓ Gwasanaeth cymunedol
- ✓ Gwasanaeth Hebrwng
- ✓ Paratoi Prydau Bwyd
- ✓ Gwasanaeth Siopa
- ✓ Mynd i'r Toiled

Gellir darparu'r holl wasanaethau hyn yn hyblyg hyd at 24 awr y dydd os oes angen.

Yn aml gallwn drefnu gwasanaethau eraill y gall fod eu hangen arnoch sydd heb eu rhestru uchod. Os teimlwch ar unrhyw adeg fod angen newid arnoch yn eich pecyn gofal, rhowch wybod i'ch gweithiwr gofal a bydd yn rhoi gwybod i Reolwr y Gangen a fydd yn cymryd y camau angenrheidiol i adolygu eich rhaglen ofal.

Bydd Rheolwr y Gangen neu ddirprwy enwebedig yn ymweld â phob Defnyddiwr Gwasanaeth er mwyn asesu eich anghenion gofal. Byddwn yn cynllunio eich cynllun gofal gyda chi. Fel arfer, gwneir hyn cyn dechrau eich gofal heblaw mewn amgylchiadau esgusodol a brys lle bo'n rhaid i'r gwasanaeth ddechrau cyn yr ymgynghoriad.

Bydd Rheolwr y Gangen neu ddirprwy enwebedig yn cwblhau Cynllun a Phroffil Defnyddiwr Gwasanaeth gyda chi a fydd yn adlewyrchu eich anghenion. Bydd hefyd yn cynnwys asesiad risg iechyd a diogelwch cyffredinol a hefyd asesiad risg symud a chodi a chario. Diben y rhain yw sicrhau ein bod yn ystyried eich iechyd, eich diogelwch a'ch lles chi a hefyd ein gofalwyr yn briodol. Ym mhob rhan o'r asesiad, byddwch chi'n cael eich holi ac os dymunwch gellir cynnwys aelodau teulu. Pan fyddwch wedi cytuno i'r cynllun gofal, gofynnir ichi ei lofnodi. Os ydych yn ariannu unrhyw ran o'r pecyn gofal eich hun, gofynnir ichi lofnodi Cytundeb Defnyddiwr Gwasanaeth sy'n disgrifio telerau'r taliadau a'r dulliau talu.

Gadewir ffolder yn eich cartref a fydd yn cynnwys y Cynllun Defnyddiwr Gwasanaeth er mwyn i weithwyr gofal ei ddiweddaru bob tro y byddant yn ymweld â chi.

Bydd Rheolwr ein Cangen yn cysylltu â chi'n rheolaidd, i sicrhau bod y gwasanaeth a ddarparwn yn bodloni eich anghenion a'i fod wrth eich bodd. Byddwch hefyd yn cael Holiaduron Arolwg Boddhad rheolaidd, y mae gofyn inni eu cwblhau ar gyfer archwiliadau Sicrhau Ansawdd.

Cynhelir adolygiad ffurfiol o'ch gofal yn rheolaidd yn unol â'n rhwymedigaethau rheoleiddiol a chytundebol. Gall hyn gynnwys aelod o Wasanaethau Cymdeithasol, Rheolwr ein Cangen a'ch gofalwr rheolaidd. Cewch ofyn am gynnwys eich perthnasau agos neu'ch prif ofalwr yn y broses hon os dymunwch. Nod y cyfarfod hwn yw adolygu'r gofal rydych chi'n ei gael fel y nodir yn y Cynllun Defnyddiwr Gwasanaeth, a phenderfynu a yw'n bodloni eich gofynion o hyd neu a oes angen ei newid er mwyn bodloni eich dymuniadau'n llawnach.

Hyfforddiant

Mae ein holl weithwyr cartref yn mynychu rhaglen gynefino a hyfforddi lawn. Ymhlith y pynciau sy'n cael sylw mae hyfforddiant gofal personol, iechyd a diogelwch, symud a chodi a chario, rheoli haint, gweithdrefnau tân, atal camdriniaeth, arfer gwrth-wahaniaethol, ymwybyddiaeth ddiwylliannol, cyfrinachedd, sicrhau ansawdd, hylendid bwyd sylfaenol a chymorth cyntaf. Darparwn hefyd unrhyw ofynion hyfforddi arbenigol a nodir.

Os nad oes ganddynt gymhwyster gofal perthnasol eisoes, caiff gweithwyr cefnogi neu ofal sydd newydd eu penodi eu cofrestru ar gyfer dyfarniad (gofal) NVQ 2.

Cymorth y Tu Allan i Oriau

Y tu allan i oriau gwaith arferol, bydd aelod o dîm cydlynu gofal y gangen bob amser ar gael i'w holi dros y ffôn. Gweithredwn wasanaeth ar alwad 24-awr, 365 diwrnod y flwyddyn, gan roi tawelwch meddwl i'n Defnyddwyr Gwasanaeth y gallant gysylltu â ni unrhyw bryd.

Cyfrinachedd

Mae'r gwasanaeth a ddarparwn yn gwbl gyfrinachol. Ni ddatgelir gwybodaeth o'ch ffeiliau ond i'r trydydd partïon hynny y mae angen iddynt wybod, gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol fel eich Meddyg eich hun neu Nyrs Ardal, cynghorwyr proffesiynol a chyrff rheoleiddio neu ymchwilio. Bydd Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn gallu gweld eich cofnodion os ydynt yn prynu'r gofal a ddarparwn i chi.

Bydd y rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd gennym amdanoch chi yn y Cynllun Defnyddiwr Gwasanaeth yn eich cartref. Fodd bynnag, os hoffech weld eich ffeil

a gedwir yn ein swyddfeydd, rhowch wybod i'ch Gofalwr a byddwn yn trefnu ichi gael gweld eich ffeil.

Mae gofyn i holl ofalwyr Allied Healthcare Group wisgo bathodyn adnabod. Mae gennych yr hawl i astudio hwn i sicrhau mai unrhyw ofalwr a ddaw i'ch gweld chi yw'r person y mae'n honni bod a'i fod yn aelod o'n tîm gofalu.

Canslo neu Ohirio'r Gwasanaeth

Gall fod angen weithiau i Allied Healthcare Group roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau i ddefnyddiwr gwasanaeth. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft:

- Os bydd y defnyddiwr gwasanaeth, neu aelod o'i staff neu gartref, yn aflonyddu'n eiriol ar nyrs, neu'n ymosod yn gorfforol neu'n rhywiol arni
- Os credwn nad oes gennym y sgiliau sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaeth cywir
- Os nad yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn darparu amgylchedd gwaith diogel i aelodau gyflawni eu dyletswyddau
- Os gwrthodir gadael i aelod o staff ein hasiantaeth weld y defnyddiwr gwasanaeth
- Os na fyddwn yn gallu darparu cyflenwad, sy'n annhebygol, byddwn yn ymdrechu i roi rhybudd o 24 awr os oes modd

Cyflenwi ar gyfer Salwch a Gwyliau

Mae ein hymdrechion wrth recriwtio a chadw staff yn sicrhau y gallwn ddarparu cronfa ddigonol o staff sydd ar gael i gyflenwi'r rhan fwyaf o absenoldebau staff. Rydym bob amser yn ceisio lleihau nifer y gofalwyr a fydd yn ymweld â chi er mwyn darparu parhad gofal. Os bydd gweithiwr gofal yn mynd ar wyliau neu i ffwrdd yn sâl, bydd angen inni ddarparu gwahanol ofalwr i chi. Byddwn yn sicrhau eich bod yn cael gwybod yn llawn am y newid hwn. Os na fyddwn yn gallu darparu cyflenwad, sy'n annhebygol, byddwn yn ymdrechu i roi rhybudd o 24 awr os oes modd ac yn eich cynorthwyo i wneud trefniadau eraill.

Taflenni amser

Ar gyfer pob aseiniad, mae gofyn i ofalwyr lenwi a chyflwyno taflen amser. Bydd y daflen amser yn cynnwys enw'r aelod o staff a'i rif cyfrifiadur a hefyd enw a chyfeiriad y defnyddiwr gwasanaeth. Dangosir dyddiad, amser dechrau a gorffen yr aseiniad a milltiredd (os yw'n briodol) yn ddyddiol a rhoir cyfanswm wythnosol. Gofynnir i ddefnyddwyr gwasanaeth lofnodi'r daflen amser ym mhob aseiniad a hefyd ar ddiwedd yr wythnos a bydd copi'n cael ei adael gyda'r defnyddiwr gwasanaeth. Ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth hynny y mae angen gofal arnynt yn eu cartref eu hunain ac nad ydynt yn gallu llofnodi'r daflen

amser, caiff aelod dynodedig o'r teulu wneud hynny a bydd y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi yn y gangen.

Ysmygu

Gwaherddir ysmygu ar ddyletswydd. O ran y defnyddwyr gwasanaeth hynny sy'n ysmygu, byddwn yn trafod â chi ffyrdd o fodloni eich anghenion a diogelu ein gofalwyr rhag effeithiau niweidiol posibl ysmygu goddefol.

Anifeiliaid Anwes

Os yw'r defnyddwyr gwasanaeth yn berchen ar anifeiliaid anwes, byddwn yn cynnal asesiad risg ac os na fydd yr anifail anwes yn cyflwyno unrhyw risg, efallai bydd yn bosibl i'ch anifeiliaid anwes fod yn bresennol tra bydd ein gofalwyr yn bresennol. Os nodir risg, byddwn yn trafod â chi ffyrdd y gellir diogelu ein gofalwyr.

Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Yn gyffredinol, dim ond ar bobl 16 oed neu h•n y mae'r Ddeddf yn effeithio ac mae'n darparu fframwaith statudol i rymuso ac amddiffyn pobl nad oes ganddynt y gallu efallai i wneud rhai penderfyniadau eu hunain, er enghraifft, pobl â dementia, anableddau dysgu, problemau iechyd meddwl, strôc neu anafiadau pen nad allant efallai wneud rhai penderfyniadau.

Mae'n egluro pwy sy'n gallu gwneud penderfyniadau ym mha sefyllfaoedd a sut y dylent fynd ati i wneud hyn. Mae'n galluogi pobl i gynllunio ar gyfer adeg pan fydd ganddynt ddiffyg galluedd efallai. Mae'r Ddeddf yn cynnwys penderfyniadau mawr am eiddo a materion rhywun, triniaeth gofal iechyd ac ymhle mae'r person yn byw, yn ogystal â phenderfyniadau bob dydd am ofal personol (fel yr hyn mae rhywun yn ei fwyta), os nad yw'r person yn gallu gwneud y penderfyniadau ei hun.

Pum egwyddor allweddol

Mae'r Ddeddf gyfan yn seiliedig ar gyfres o bum egwyddor allweddol:

- Tybio galluedd – mae gan bob oedolyn yr hawl i wneud ei benderfyniadau ei hun ac mae'n rhaid tybio bod ganddo'r gallu i wneud hynny oni phrofir fel arall;
- Cefnogi unigolion i wneud eu penderfyniadau eu hunain – mae'n rhaid rhoi pob cymorth ymarferol i rywun cyn y caiff ei drin o gwbl fel rhywun nad yw'n gallu gwneud ei benderfyniadau ei hun;
- Penderfyniadau annoeth – os bydd unigolyn yn gwneud yr hyn y gellir ei ystyried yn benderfyniad annoeth, ni ddylid ei drin fel na petai ganddo'r galluedd i wneud y penderfyniad hwnnw;
- Pennaf les – mae'n rhaid i weithred neu benderfyniad a wneir o dan y Ddeddf ar gyfer neu ar ran rhywun â diffyg galluedd gael ei wneud er ei les pennaf; a
- Dewis lleiaf cyfyngol – dylai unrhyw beth a wneir ar gyfer neu ar ran rhywun â diffyg galluedd fod y dewis sy'n cyfyngu lleiaf ar ei hawliau a'i ryddid sylfaenol.

Beth mae'r Ddeddf yn ei wneud?

Mae'r Ddeddf yn cadw mewn statud arfer gorau cyfredol ac egwyddorion cyfraith gyffredin sy'n ymwneud â phobl â diffyg galluedd meddyliol a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau ar eu rhan.

Mae'r Ddeddf yn ymdrin â dwy sefyllfa lle gall penderfynwr penodedig weithredu ar ran rhywun â diffyg galluedd:

- Atwrneiaeth Arhosol (AA) - Mae'r Ddeddf yn caniatáu i rywun benodi atwrnai i weithredu ar ei ran os bydd yn colli galluedd yn y dyfodol. Mae hwn fel yr Atwrneiaeth Barhaus (AB) mewn perthynas ag eiddo a materion, ond mae'r Ddeddf hefyd yn caniatáu i bobl roi grym i atwrnai wneud penderfyniadau iechyd a lles. Cyn y gellir ei defnyddio, mae'n rhaid i AA gael ei chofrestru gyda Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.

- Dirprwyon a benodir gan y Llys – Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer system o ddirprwyon a benodir gan y Llys yn y Llys Gwarchod. Gellir penodi dirprwyon i wneud penderfyniadau am les, gofal iechyd a materion ariannol fel y'u hawdurdodir gan y Llys Gwarchod ond ni allant wrthod caniatâd i driniaeth sy'n cynnal bywyd. Ni chânt eu penodi oni fydd y Llys yn methu gwneud un penderfyniad i ddatrys y materion.

Mae'r Ddeddf yn creu corff cyhoeddus a swyddog i gefnogi'r fframwaith statudol, y cynllunnir y ddau ohonynt o amgylch anghenion y rheini â diffyg galluedd:

- Gan y Llys Gwarchod mae awdurdodaeth mewn perthynas â'r Ddeddf gyfan. Mae ganddo ei weithdrefnau a'i farnwyr enwebedig ei hun. Gall wneud datganiadau, penderfyniadau a gorchmynion sy'n effeithio ar bobl â diffyg galluedd a gwneud penderfyniadau i bobl â diffyg galluedd neu benodi dirprwyon i wneud penderfyniadau ar eu rhan. Mae'n ymdrin â phenderfyniadau sy'n ymwneud ag eiddo a materion, yn ogystal â phenderfyniadau iechyd a lles. Mae'n arbennig o bwysig wrth ddatrys achosion cymhleth neu achosion sy'n destun dadl sy'n cynnwys, er enghraifft, a oes diffyg galluedd gan rywun neu beth sydd er ei bennaf les. Mae'r Llys mewn safleoedd mewn nifer fechan o leoliadau ledled Cymru a Lloegr ac mae'n cael ei gefnogi gan weinyddiaeth ganolog yn Llundain.

- Mae gan Warcheidwad Cyhoeddus nifer o ddyletswyddau o dan y Ddeddf ac fe'i cefnogir i gyflawni'r rhain gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (SGC). Y Gwarcheidwad Cyhoeddus a'i staff yw'r awdurdod cofrestru ar gyfer AA a dirprwyon. Mae'n goruchwylio dirprwyon a benodir gan y Llys ac yn rhoi gwybodaeth i helpu'r Llys i wneud penderfyniadau. Mae hefyd yn cydweithio ag asiantaethau eraill, fel yr heddlu a gwasanaethau cymdeithasol, i ymateb i unrhyw bryderon a godir am y ffordd y mae atwrnai neu ddirprwy'n gweithio. Mae Bwrdd Gwarcheidwad Cyhoeddus yn archwilio ac yn adolygu'r ffordd y mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn

cyflawni ei swyddogaethau. Mae gofyn i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus lunio Adroddiad Blynyddol am gyflawni ei swyddogaethau.

Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys tair darpariaeth allweddol bellach i warchod pobl agored i niwed:

- Mae Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol (EAGM) yn bobl a benodir i gefnogi rhywun â diffyg galluedd nad oes ganddo neb i siarad drosto, fel teulu neu ffrindiau. Ni chânt eu cynnwys heblaw bod penderfyniadau'n cael eu gwneud am driniaeth feddygol ddifrifol neu newid llety'r unigolyn os caiff ei ddarparu gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu awdurdod lleol. Mae'r EAGM yn cyflwyno achosion am ddymuniadau, teimladau, credoau a gwerthoedd yr unigolyn, ac ar yr un pryd yn tynnu sylw'r penderfynwr i'r holl ffactorau sy'n berthnasol i'r penderfyniad. Gall yr EAGM herio'r sawl sy'n penderfynu ar ran y sawl â diffyg galluedd os oes angen. Gellir cysylltu â'r gwasanaeth EAGM lleol yn:

  ☎
  ✍
  ✉

- Penderfyniadau ymlaen llaw - Mae'r Ddeddf yn creu rheolau statudol gyda dulliau diogelu clir fel y gall pobl benderfynu ymlaen llaw gwrthod triniaeth pe byddent â diffyg galluedd yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn nodi dau ddull diogelu pwysig sef dilysrwydd a chymhwysedd mewn perthynas â phenderfyniadau ymlaen llaw. Os yw penderfyniad ymlaen llaw yn ymwneud â thriniaeth sydd ei hangen i gynnal bywyd, mae'n rhaid cydymffurfio â ffurfioldeb caeth er mwyn i'r penderfyniad ymlaen llaw fod yn berthnasol. Dywed y ffurfioldeb hwn ei bod yn rhaid i'r penderfyniad fod yn ysgrifenedig, wedi'i lofnodi a'i dystio. Yn ogystal, mae'n rhaid datgan yn glir fod y datganiad yn sefyll "hyd yn oed os yw bywyd mewn perygl" ac mae'n rhaid i hwn hefyd fod yn ysgrifenedig, wedi'i lofnodi a'i dystio.

Eich Iechyd a Diogelwch

Diogelwch y cleient

Yn Allied Healthcare Group ein prif flaenoriaeth yw iechyd, diogelwch a lles ein cleientiaid a'n gweithwyr gofal.

Mae gennym Bolisi Iechyd a Diogelwch cynhwysfawr, sy'n ein galluogi i sicrhau y darparwn ac y cynhaliwn amodau, arferion ac offer gwaith diogel ac iachus i'n holl aelodau. Bydd y Cwmni'n darparu gwybodaeth, hyfforddiant a goruchwyliaeth yn ôl yr angen at y diben hwn. Os oes angen asesu risgiau i ddiogelwch neu iechyd o dan ddyletswydd neu Reoliadau penodol, byddwn yn sicrhau y cynhelir asesiadau ac y cymerir pob cam y dangoswyd bod ei angen.

Rydym yn gweithredu proses recriwtio a dewis drwyadl ac mae gofyn i unrhyw aelod o staff sy'n ymgeisio am gofrestru ag Allied Healthcare Group fodloni nifer o archwiliadau cyn bod modd caniatáu ei gofrestru:

- ✓ Caiff pob gweithiwr ei gadarnhau gyda'r Swyddfa Cofnodion Troseddol, a'i archwilio mewn perthynas â rhestri Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed a Deddf Amddiffyn Plant adrannau iechyd ac addysg o bobl y'u gwaharddwyd rhag gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed.
- ✓ Sicrheir dau dystlythyr proffesiynol ysgrifenedig, o'r cyflogwyr diweddaraf, ar ffeil cyn aseinio'r ymgeisydd i unrhyw ddyletswyddau ar ran y Cwmni.
- ✓ Caiff pob Nyrs Gymwysedig ei gwirio gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.
- ✓ Caiff diweddariadau blynyddol eu monitro sy'n ymwneud â gofynion gorfodol ar gyfer Symud a Chodi a Chario, Rheoli Haint, Iechyd a Diogelwch, Atal Tân, Atal Camdriniaeth, Hylendid Bwyd a Chymorth Cyntaf.
- ✓ Sicrheir datganiad o addasrwydd i weithio gan bob gofalwr.
- ✓ Pan gânt eu cofrestru, mae'n rhaid i'r holl ofalwyr lenwi Rhestr Wirio Profiad mewn perthynas â'u harbenigedd a'u profiad.
- ✓ Caiff archwiliadau Perfformiad Ansawdd eu cynnal a'u monitro hefyd ar bob gofalwr.
- ✓ Mae gofyn i bob gofalwr gario ei Fathodyn Adnabod drwy'r amser.
- ✓ Mae gofyn i bob gofalwr lofnodi Datganiad Cyfrinachedd sy'n parchu ac yn amddiffyn gwybodaeth bersonol a chyfrinachau y bydd y Defnyddwyr Gwasanaeth yn eu rhannu.
- ✓ Gwneir yr holl ofalwyr yn gwbl ymwybodol o oriau gwaith mwyaf yr Undeb Ewropeaidd a rhoir gwybodaeth fanwl iddynt i gyd.
- ✓ Mae Allied Healthcare Group yn diweddaru pob polisi a gweithdrefn yn rheolaidd yn unol â gofynion deddfwriaethol a gorfodol.
- ✓ Mae holl ganghennau Allied Healthcare Group wedi'u cofrestru â'r Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, neu Gomisiwn Rheoleiddio Gofal yr Alban fel sy'n briodol ac mae'r dystysgrif gofrestru'n cael ei harddangos yn amlwg ym mhob swyddfa.

Mae Cod Ymarfer y Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol yn arwain pob gofalwr.

Caiff pob gofalwr ei fonitro a'i oruchwylio'n barhaus gyda chyfarfod goruchwylio ffurfiol bob 3 mis a gwerthusiad blynyddol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i ofalwyr drafod datblygiad personol a nodi unrhyw anghenion hyfforddi.

Mae pob gofalwr yn cael Llawlyfr pan fydd yn cofrestru ag Allied Healthcare Group, sy'n cynnwys polisïau a gweithdrefnau'r Cwmni. Mae'r llawlyfr hwn yn ffurfio telerau ac amodau cyflogaeth i bob Gweithiwr Cartref. Adolygir llawlyfrau yn unol ag adolygiad Polisi a Gweithdrefn.

Diogelu Eich Arian a'ch Eiddo

Mae Allied Healthcare Group yn gweithredu Polisi Trin Eiddo Defnyddiwr Gwasanaeth sy'n cael ei gynnwys yn llawlyfrau aelodau staff. Cofnodir yr holl drafodion mewn perthynas â thrin arian defnyddwyr gwasanaeth yn y Cynllun Gofal. Mae'n rhaid adrodd ar unwaith am unrhyw anghysondebau i Reolwr y Gangen. Mae ein Polisi Cwyno a'n Polisi Sicrhau Ansawdd yn sicrhau yr ymchwilir yn llawn i unrhyw afreoleidd-dra a'i fod yn cael ei ddatrys.

Os bydd angen i ofalwyr "gadw" allweddi i eiddo defnyddiwr gwasanaeth, mae'n rhaid cael awdurdodiad ysgrifenedig ar ffurflen awdurdodi allwedd ac mae'n rhaid i'r defnyddiwr gwasanaeth neu rywun awdurdodedig arall lofnodi'r ffurflen.

Os bydd ein gofalwyr yn trin eich arian yn ystod eu gwaith, er enghraifft casglu eich pensiwn neu wneud eich siopa, mae'n rhaid iddynt gofnodi'r trafodion hyn yn y Cynllun Defnyddiwr Gwasanaeth a chael eich llofnod er mwyn cwblhau'r trafodyn yn gywir. Mae hyn er mwyn eich amddiffyn chi a'r gweithiwr gofal. Os oes unrhyw afreoleidd-dra cysylltwch â Rheolwr eich Cangen a fydd yn cynnal ymchwiliad ar unwaith.

Ni chaniateir i unrhyw aelod o staff dderbyn unrhyw rodd, benthyciad na childwrn gan ddefnyddwyr gwasanaeth, perthnasau nac unrhyw un arall â diddordeb.

Ni chaniateir i ofalwyr fod yn dyst i Ewyllysiau na rhoi cyngor mewn perthynas ag Ewyllysiau, buddsoddiadau na materion ariannol yn gyffredinol.

Rhoi Meddyginiaeth

Lle bynnag y bo modd, anogir ichi fod yn gyfrifol am reoli eich meddyginiaeth eich hun. Ni all eich gofalwr eich cynorthwyo i reoli eich meddyginiaeth oni bai bod hyn yn rhan o becyn gofal y cytunwyd arno. Mae'n rhaid i ofalwyr ddilyn polisi a gweithdrefnau'r Cwmni bob amser.

Ni orfodir ichi gymryd meddyginiaeth o dan unrhyw amgylchiadau ac nid oes gan ofalwyr yr hawl i unrhyw wybodaeth ynghylch statws eich iechyd na'ch cyflwr meddygol.

Mae'n rhaid i feddyginiaeth gael ei labelu'n glir. Ni fydd gofalwyr yn llenwi cymhorthion cydymffurfio (fel blychau dos a blychau undydd). Ni fydd gofalwyr yn eich cynorthwyo gyda meddyginiaeth o gymhorthion cydymffurfio heblaw bod fferyllydd wedi'u paratoi a'u selio. Ni fydd gofalwyr yn eich cynorthwyo gydag unrhyw feddyginiaeth y mae angen arsylwi medrus arni, fel profion glwcos yn y gwaed neu droeth, neu fesur pwls. Ni fydd gofalwyr yn eich cynorthwyo chwaith gyda meddyginiaeth a roddir drwy bympiau neu yrwyr chwistrell, na bwydo gastrig drwy diwbiau neu begiau, nac yn defnyddio unrhyw ddyfeisiau meddygol mecanyddol neu drydanol eraill e.e. peiriannau TENS.

Llenwir y siart cofnodi meddyginiaeth gyfredol bob tro y bydd gofalwr yn cynnig meddyginiaeth a ragnodwyd i chi, ni waeth a fyddwch yn cymryd neu'n gwrthod y feddyginiaeth honno.

Ni fydd gofalwyr yn eich cynorthwyo i reoli meddyginiaeth oni fyddant wedi cael hyfforddiant priodol. Ni fyddant ychwaith yn perfformio unrhyw weithdrefnau mewnwthiol fel rhoi pigiadau oni chawsant hyfforddiant i wneud hynny a bod y protocol priodol wedi'i gwblhau.

Ni fydd eich gofalwr yn rhoi cymorth gyda diferion i lygaid a chlustiau oni chytunwyd ar gytundebau a chyfarwyddiadau arbennig yn ffurfiol yn eich Cynllun Gofal. Os felly, dim ond os yw'r gofalwr wedi cael cyfarwyddyd uniongyrchol gan y Meddyg Teulu, y Nyrs Ardal neu'r Fferyllydd y bydd yn rhoi cymorth. Lle bynnag y bo modd, dylid paratoi diferion mewn dosau ymlaen llaw.

Ni ellir rhoi cymorth gyda nebiwlyddion, mewnanadlwyr a *volumatics* oni ragnodwyd mesurau un dos h.y. pils neu ampylau ac oni chytunwyd i hyn yn ffurfiol yn rhan o'ch Cynllun Gofal. Os felly, dim ond os yw'r gofalwr wedi cael cyfarwyddyd uniongyrchol gan eich meddyg teulu, nyrs ardal neu fferyllydd y gall roi cymorth.

Ni ellir rhoi cymorth gyda meddyginiaethau 'dros y cownter' a 'meddyginiaethau cartref' oni fydd naill ai gweithiwr iechyd proffesiynol neu fferyllydd yn cytuno ei bod yn ddiogel gwneud hynny gyda'r feddyginiaeth a ragnodwyd ichi. Bydd eich gofalwr yn cofnodi pob meddyginiaeth heb bresgripsiwn a brynir ar gefn y Siart Feddyginiaeth.

Os bydd gofalwr yn poeni o gwbl am unrhyw agwedd ar reoli eich meddyginiaeth, bydd yn trafod hyn naill ai â'i Reolwr Llinell neu weithiwr iechyd proffesiynol neu fferyllydd.

Gall y polisi hwn fod yn destun amrywiadau rhanbarthol i unrhyw ran o'r polisi meddyginiaeth hwn yn unol ag: awdurdodau rheoleiddio AGGCC a/neu Fferyllydd lleol; yr adran gwasanaethau cymdeithasol leol; unrhyw gyrff eraill â rhwymedigaeth gytundebol.

Ein Polisi Iechyd a Diogelwch

Polisi Allied Healthcare Group yw dilyn gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ac unrhyw ddeddfwriaeth neu reoliadau dilynol eraill. Caiff ein Polisi Iechyd a Diogelwch ei adolygu a'i ddiwygio yn ôl yr angen.

Mae'n bolisi gan y Cwmni ddarparu a chynnal amodau, arferion ac offer gwaith diogel ac iachus i'n holl ofalwyr. Bydd y Cwmni'n darparu gwybodaeth, hyfforddiant a goruchwyliaeth yn ôl yr angen at y diben hwn.

Os oes angen "asesu" risgiau i ddiogelwch neu iechyd o dan ddyletswydd neu Reoliadau penodol, byddwn yn sicrhau bod "asesiadau" yn cael eu cynnal ac y cymerir pob cam y dangosir bod ei angen.

Mae'n bolisi gan y Cwmni wrando'n ofalus ar farnau unrhyw ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr mewn perthynas â materion Iechyd a Diogelwch.

Arddangosir copi o'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith yn Swyddfa pob Cangen.

Rhoir Llawlyfr i ofalwyr sy'n cynnwys polisi iechyd a diogelwch y Cwmni ac mae pob gofalwr yn cael offer amddiffynnol personol.

Mae ein Polisi Iechyd a Diogelwch llawn i'w weld yn y gangen yn y Canllaw Polisïau a Gweithdrefnau.

Gweithdrefn Damweiniau / Digwyddiadau

Nod y Cwmni yw sicrhau bod pob aelod yn ymwybodol o'r camau i'w cymryd mewn argyfwng. Mae Rheolwyr Cangen yn gyfrifol am sicrhau y cyfarwyddir gofalwyr sut i ymdrin ag argyfyngau. Caiff y cyfarwyddiadau hyn eu cynnwys yn Llawlyfrau'r gofalwyr:

- ✓ Methu mynd i mewn i safle Defnyddiwr Gwasanaeth
- ✓ Ymdopi â thrais ac ymddygiad heriol
- ✓ D•r, Nwy yn gollwng
- ✓ Trydaniad
- ✓ Tân
- ✓ Ocsigen yn gollwng

Adroddir am unrhyw ddamwain/digwyddiad i Reolwr y Gangen ac mae ffurflenni damwain/digwyddiad wedi'u cynnwys yng nghynllun pob defnyddiwr gwasanaeth. Cofnodir damweiniau i ofalwyr yn Swyddfa'r Gangen mewn llyfr adrodd am ddamweiniau.

Os nad yw gofalwyr yn gallu mynd i mewn i gartref defnyddiwr gwasanaeth, bydd yr aelod o staff yn rhoi gwybod i'r Gangen ar unwaith. Bydd Rheolwr y Gangen yn sicrhau y rhoir cyfarwyddiadau clir i'r staff ar gwblhau archwiliadau gweledol a holi cymdogion. Bydd Rheolwr y Gangen wedyn yn holi cysylltiadau enwebedig y defnyddiwr gwasanaeth a'r berthynas agosaf, wedyn y Meddyg Teulu a'r Gweithiwr Cymdeithasol.

Os na fydd yn bosibl dod o hyd i'r defnyddiwr gwasanaeth ar unwaith, galwir yr heddlu.

Ym mhob achos lle nad yw aelodau'n gallu mynd i mewn i gartref defnyddiwr gwasanaeth, dogfennir hyn yn ffeil y defnyddiwr gwasanaeth. Gadewir slip "Methu mynd i mewn" yng nghartref y defnyddiwr gwasanaeth a bydd copi'n cael ei gadw yn y gangen.

Os bydd nyrs neu ofalwr yn credu efallai bod gweithgarwch troseddol wedi digwydd (e.e. yn amau bod defnyddiwr gwasanaeth wedi'i gam-drin yn gorfforol neu'n amau lladrad) bydd ein nyrs neu ofalwr yn rhoi gwybod i'w reolwr cangen ar unwaith a bydd y rheolwr yn cysylltu â'r awdurdodau angenrheidiol.

Sut gall Defnyddwyr Gwasanaeth fynegi eu barnau am ein gwasanaeth

Mae Allied Healthcare Group yn cydnabod ei bod yn hollbwysig darparu gwasanaeth o ansawdd uchel wrth hyrwyddo ansawdd bywyd i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Yn rhan o'n Polisi Sicrhau Ansawdd, cysylltir yn rheolaidd â defnyddwyr gwasanaeth i fynegi eu barnau, sylwadau neu bryderon am y safonau gwasanaeth a ddarperir gan Allied Healthcare Group. Croesawn y sylwadau hyn i sicrhau bod ein gofal o'r ansawdd uchaf.

Gofynnir i ddefnyddwyr gwasanaeth yn eu cartrefi eu hunain lenwi holiadur Arolwg Boddhad yn rheolaidd a bydd Rheolwr y Gangen yn ymweld yn rheolaidd â'r defnyddiwr gwasanaeth i adolygu ei gynllun. Mae canlyniadau'r arolygon hyn yn darparu dangosyddion perfformiad inni ac yn ein helpu i wneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen ar ein polisïau a'n gweithdrefnau.

Dyma'r gweithgareddau perthnasol y seiliwn ein system sicrhau ansawdd arnynt:

- ✓ Cymhwysedd
- ✓ Dibynadwyedd
- ✓ Ymatebolrwydd
- ✓ Diogelwch
- ✓ Dealltwriaeth
- ✓ Hygredded
- ✓ Cadw at Bolisi a Gweithdrefnau
- ✓ Hygyrchedd
- ✓ Cydraddoldeb
- ✓ Cysondeb
- ✓ Gwella gwasanaeth
- ✓ Monitro cwynion/ sylwadau a chanmoliaeth
- ✓ Cyfeillgarwch a natur ofalgar gweithwyr gofal iechyd

Bydd y Brif Swyddfa'n cynnal archwiliad o leiaf unwaith y flwyddyn, a bydd y canlyniadau ar gael yn y gangen at sylw defnyddwyr gwasanaeth, teulu neu gynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

Gellir cysylltu â'r Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol yn:

General Social Care Council
Goldings House
2 Hay's Lane
London
SE1 2HB
Rhif Ffôn: 0207 3975100

Gellir cysylltu â'r Ymddiriedolaeth GIG Leol yn y cyfeiriad isod:



Gweithdrefn Gwyno

Egwyddorion

Bydd Allied Healthcare Group yn ymdrechu i ddarparu'r safonau gwasanaeth uchaf posibl er mwyn bodloni gofynion defnyddwyr gwasanaeth heddiw ac yn y dyfodol. Am y rheswm hwn, croesawn eich sylwadau, eich canmoliaeth neu eich cwynion er mwyn inni gywiro unrhyw ddiffygion os byddant yn codi. Byddwn:

- ✓ Yn ymdrechu i ddarparu ateb ar unwaith i fân gwynion neu ddigwyddiadau, ac os yw'n bosibl camau gweithredu ymhen 24 awr
- ✓ Yn cydnabod pob cwyn ysgrifenedig ymhen 3 diwrnod gwaith
- ✓ Yn ymchwilio i bob cwyn ysgrifenedig ac yn adrodd am y canlyniadau i'r achwynydd ymhen 15 diwrnod gwaith (heblaw bod natur y g•yn yn pennu y byddai ymchwiliad yn cymryd mwy o amser)
- ✓ Yn cytuno ar y cyd â'r achwynydd y camau i'w cymryd i gywiro unrhyw g•yn
- ✓ Yn cadw cofnod ysgrifenedig llawn o natur a manylion pob cwyn a geir, a'r camau a gymerwyd i'w datrys

Petai gennych achos i gwyno am ein gwasanaeth neu aelod o'n staff, sy'n annhebygol, dylid dilyn y drefn ganlynol, er mwyn inni ymdrin yn gyflym ac yn effeithiol â'ch cwyn.

Sut i Gwyno:

- Os nad yw eich cwyn yn rhy ddifrifol, ac os teimlwch y gellir ei datrys drwy siarad â rhywun, **ffoniwch** y gangen leol.
- Os yw eich cwyn yn fwy difrifol am y ffordd y cawsoch eich trin neu am unrhyw agwedd ar ein gwasanaeth, neu os ydych yn anhapus ag ymddygiad gweithiwr gofal iechyd arbennig, anfonwch eich cwyn mewn **llythyr** at Reolwr y Gangen yn y cyfeiriad ar y clawr blaen.

Sut yr ymdrinnir â'ch cwyn:

- Pan fydd y g•yn yn ein cyrraedd, cofnodwn holl fanylion y g•yn yn Ffeil Cwynion swyddfa'r gangen a bydd cofnod yn cael ei roi ar ffeil y defnyddiwr gwasanaeth a gweithiwr gofal iechyd yr asiantaeth. Bydd manylion llawn yr ymchwiliad, y canlyniad a'r camau a gymerwyd hefyd yn cael eu cofnodi'n llawn.
- Byddwn yn cynnal ymchwiliad llawn o'ch cwyn, a allai olygu y byddwn yn cyfweld â chi ac unrhyw un arall dan sylw.
- Byddwn yn parhau i roi gwybod ichi fanylion ein canfyddiadau, y camau a gymerwyd gennym a'r cynigion i ddatrys eich cwyn.
- Os bydd unrhyw honiadau penodol o gamdriniaeth yn cael eu gwneud, rhoir gwybod i AGGCC.

Os gwneir cwyn o gamymddygiad yn erbyn Nyrs Gofrestredig, byddwn fel arfer yn adrodd am hyn i Swyddfa Ymddygiad Proffesiynol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac AGGCC. Bydd y nyrs yn cael gwybod yn llawn am y g•yn ar bob adeg.

Yn ystod yr ymchwiliad, ni fydd y gweithiwr y cwynoch amdano yn cael unrhyw waith pellach gyda chi, ac efallai y caiff ei wahardd dros dro yn ystod yr ymchwiliad, gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y g•yn.

Os nad ydych yn fodlon ar y canlyniad a roddwyd gan Reolwr y Gangen, cewch gwyno'n uniongyrchol i'r:

Pennaeth Ansawdd
Allied Healthcare Group
Stone Business Park
Brooms Road
Stone
Staffordshire ST15 0TL
☎ 01785 810600
📠 01785 818200
✉ mariemoody@alliedhealthcare.com

Cwyno i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Os dymunwch wneud eich cwyn yn uniongyrchol i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru cysylltwch â'ch swyddfa leol, y mae ei manylion yn y blwch isod:

☎
📠
✉

Os nad ydych yn dymuno gwneud eich cwyn eich hun, cewch ofyn i ffrind neu berthynas gwyno ar eich rhan chi.

Bydd Allied Healthcare Group Limited yn cyflenwi i AGGCC ddatganiad blynyddol sy'n cynnwys crynodeb o'r cwynion a wnaed yn ystod y 12 mis blaenorol a'r camau a gymerwyd mewn ymateb.

Cofiwch fod gennych hawl cwyno os dymunwch. Ni fydd yn peryglu'r gwasanaeth a gewch gennym ni mewn unrhyw fodd.

Yswiriant

Mae yswiriant indemniad gan unrhyw un sy'n gweithio i Allied Healthcare Group neu ar ei ran, o dan y polisïau canlynol.

Atebolrwydd Cyflogwr i £10 Miliwn
Atebolrwydd Cyhoeddus i £10 Miliwn
Camymddygiad Meddygol £10 Miliwn gyda'i gilydd

Arddangosir tystysgrif ein Hyswiriant Atebolrwydd Cyflogwr yn ein holl safleoedd.

English
This information can be provided in other languages and formats upon request such as large print, braille or audio cassette. Please contact your branch for further details.

Italian
A richiesta, le presenti informazioni possono essere fornite anche in altre lingue e altri formati, come stampa di grandi dimensioni, formato braille o audiocassetta. Per ulteriori informazioni, contattare la propria filiale.

Arabic
يمكن حسب الطلب توفير هذه المعلومات بلغات وتنسيقات أخرى مثل الخط الكبير أو لغة برايل أو شريط كاسيت. الرجاء الاتصال بفرعك لمزيد من التفاصيل.

Chinese
如果有诸如大型印刷、盲文或者盒式录音磁带之类的需求，本信息还能以其他语言或格式提供。欲知更多详细信息，请联系您当地的分支机构。

French
Ces informations sont disponibles en d'autres langues et d'autres formats sur simple demande : gros caractères, Braille ou cassette audio. Veuillez contacter votre agence pour plus de renseignements.

German
Diese Informationen sind auf Wunsch auch in anderen Sprachen und Formaten verfügbar, z. B. in Großdruck, Blindenschrift und auf Audiokassette. Weitere Details erhalten Sie von unserer Zweigstelle.

Herbrew
ניתן לקבל מידע זה לפי דרישה בשפות ובתבניות נוספות, כגון בכתב מוגדל, בכתב ברייל או בקלטת שמע. לפרטים נוספים אנא צור קשר עם הסניף שלך.

Japanese
この情報は、ご要望に応じて大きな活字、点字、オーディオカセットなど他の言語や形式で提供することができます。詳細はお近くの支店にお問い合わせください。

Polish
Niniejsze informacje są na życzenie udostępniane w innych wersjach językowych i formatach, tj. w wersji z dużym drukiem, w formie zapisu Braillem lub nagrania na taśmie audio. Więcej informacji na ten temat można uzyskać w najbliższym oddziale.

Portuguese
Esta informação pode ser prestada noutros idiomas e formatos, tais como impressão em letras grandes, braille ou cassete áudio, mediante solicitação. Para mais informações, contacte a sua sucursal.

Russian

, , ,
. .

Spanish

Esta información está disponible en otros idiomas y formatos bajo petición, por ejemplo en mayúsculas, braille o cinta de audio. Póngase en contacto con su sucursal para más información.

Urdu

ی معلومات فرمائش کئ جان پر دیگر زبانو اور ب پرن،
بریل یا آیو کیسی جیسی صورتو می فرام کی جا سکتی ی
مزید تفصیلات ک لئ برا کرم اپن برانچ س رابط کری

Welsh

Gellir darparu'r wybodaeth hon mewn ieithoedd a fformatau eraill os gofynnir am hynny, fel print bras, braille neu dâp sain. Cysylltwch â'ch cangen am fanylion pellach.

Greek

Αυτές οι πληροφορίες, αν ζητηθεί, παρέχονται και σε άλλες γλώσσες και μορφές, όπως παραδείγματος χάρην, σε μεγάλη εκτύπωση, σε μπρέιλ ή σε κασσέττα. Παρακαλώ επικοινωνήστε με το υποκατάστημά σας για περισσότερες λεπτομέρειες.